**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17$^{eg}$ Hydref 2011**

## Lleoli'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr (ALPs)

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad yn argymell bod yr Awdurdod yn gohirio penderfyniad ar ddyfodol tri Pheiriant ag Ysgol ac Esgynlawr (ALP) y Gwasanaeth gan aros eglurhad am y sefyllfa o ran criwio yn y dyfodol.

## Cefndir

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18$^{fed}$ Hydref 2010, ac yn dilyn trafodaethau manwl, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu safon cyrraedd 30 munud ar gyfer y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr ledled y gogledd.

3 Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth bedwar Peiriant o'r fath, sef ym Mangor, Llandudno, y Rhyl a Wrecsam. Bydd y Peiriant sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol yn Ebrill 2012.

4 Roedd yr Aelodau'n cydnabod y byddai mabwysiadu safon 30 munud yn arwain at sefyllfa lle na fyddai angen Peiriant newydd. Daeth yr Aelodau i'r casgliad y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i leoli a/neu adleoli'r tri Pheiriant sy'n weddill, a bwriad y swyddogion oedd adrodd yng nghyfarfod mis Hydref.

**Gwybodaeth**

5 Fodd bynnag, oherwydd y drafodaeth sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd ynghylch yr opsiynau o ran gostwng y gyllideb yn 2011 – 2014, dylid nodi ei bod yn bosib y gallai'r opsiynau o ran yr ochr weithredol sy'n cael eu hystyried yr Aelodau gael effaith fawr ar y trefniadau o ran criwio'r Peiriannau yn y dyfodol.

6 Felly, gallai gwneud penderfyniad ynglŷn â lleoli'r Peiriannau cyn edrych yn fanwl ar effeithiau'r opsiynau o ran yr ochr weithredol arwain at sefyllfa lle byddai'n rhaid i'r Aelodau edrych eto ar y mater yn y tymor byr.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad, ac yn gohirio penderfyniad ar leoli'r Peiriannau hyd gyfarfod yr Awdurdod ym Mawrth 2012.